

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Grove Park i Gylchfan
Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2019

The A4042 Trunk Road (Grove
Park Roundabout to Caerleon
Roundabout, Newport) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2019

Gwnaed 26 Chwefror 2019

Made 26 February 2019

Yn dod i rym 1 Mawrth 2019

Coming into force 1 March 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Gylchfan Caerllion, Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Mawrth 2019.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Grove Park Roundabout to Caerleon Roundabout, Newport) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 1 March 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2019 ac sy'n dod i ben pan

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith yn barhaol; ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

26 Chwefror 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 1 March 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

26 February 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of Grove Park Roundabout to its junction with the western side of Caerleon Roundabout, Newport.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the western side of Caerleon Roundabout to the nosing of the M4 Junction 25A westbound exit slip road.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042
(CYLCHFAN GROVE PARK I GYLCHFAN
CAERLLION, CASNEWYDD) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042 rhwng Cylchfan Grove Park a Chylchfan Caerllion, Casnewydd, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Mae'r trefniadau ar gyfer llwybrau amgen wedi eu hamlinellu ynddi hefyd.

Disgwylir y daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mawrth 2019 ac y bydd yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) tan 1 Gorffennaf 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Pan fo'n bosibl, bydd hysbysiad ynghylch cau'r ffordd yn cael ei arddangos tua wythnos cyn dechrau'r gwaith.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4042 TRUNK ROAD (GROVE PARK
ROUNDAABOUT TO CAERLEON
ROUNDAABOUT, NEWPORT) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Grove Park Roundabout and Caerleon Roundabout, Newport.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A4042 specified in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also outlined therein.

The Order is expected to come into force on 1 March 2019 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) until 1 July 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Whenever possible, notice of closures will be displayed approximately one week before the commencement of works.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

Gwahardd Cerbydau dros Dro a Llwybrau Amgen

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.

2. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.

Llwybrau Amgen

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau y mae eu uchder yn llai na 4.8 o fetrau yw mynd ar yr A4042, y B4591 a'r B4596 Heol Caerllion.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau y mae eu uchder dros 4.8 o fetrau yw mynd ar yr A4042, y B4591, y B4596 Heol Caerllion, y B4237 a'r M4 tua'r dwyrain neu'r gorllewin yn ôl yr angen.

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

1. The length of the A4042 eastbound carriageway that extends from its junction with the eastern side of Grove Park Roundabout to its junction with the western side of Caerleon Roundabout, Newport.

2. The length of the A4042 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Caerleon Roundabout to the nosing of the M4 Junction 25A westbound exit slip road.

Alternative Routes

The alternative route for vehicles less than 4.8 metres in height is via the A4042, B4591 and B4596 Caerleon Road.

The alternative route for vehicles over 4.8 metres is via the A4042, B4591, B4596 Caerleon Road, B4237 and the east or westbound M4 as necessary.